Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
—
Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog,


Bydd y Pwyllgor yn trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (‘y Memorandwm’) ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol yn gynnar yn nhymor yr hydref er mwyn cyrraedd y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar 22 Hydref. I’n cynorthwyo gyda’n hystyriaeth, rydym wedi ysgrifennu at gyrff proffesiynol i geisio eu barn.

Mae'r Memorandwm yn nodi rhesymeg Llywodraeth Cymru dros gynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol y DU ('Bil y DU'). Mae’r rhesymau a roddwyd yn cynnwys dichonoldeb datblygu cofrestrfa Cymru a’r diffyg amser yn rhaglen ddeddfwriaethol Senedd Cymru i gyflwyno Bil sy'n gwneud darpariaeth i Gymru ar y materion hyn. Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ymhelaethu ar eich rhesymeg dros gynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU, y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y Memorandwm?

Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi bod nifer o bryderon a godwyd gyda Llywodraeth y DU yn weddill a bydd y gwaith i’w datrys yn cael ei symud ymlaen wrth i'r Bil barhau ar ei hynt seneddol. A allwch roi mwy o wybodaeth inni am y pryderon hyn, pam yr ydych yn poeni amdanynt, a'r hyn yr ydych yn ceisio'i gyflawni yn eich trafodaethau â Llywodraeth y DU?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi eich ymateb i ni erbyn 28 Awst.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565